

Benthyciadau Trefnu o'r Gronfa Gymdeithasol

Mae gennym lawer o wahanol ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi

Os hoffech chi Braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain neu rywbeth arall dywedwch wrthym trwy ffonio **0800 169 0240**.

Taflen nodiadau

 Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus. Maent yn esbonio'r amgylchiadau pan ellir talu benthyciad trefnu.

Benthyciadau Trefnu

Efallai y gallwch gael Benthyciad Trefnu os:

- **rydych wedi bod yn cael** Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, Credyd Pensiwn neu daliad ar gyfrif am unrhyw un o'r budd-daliadau neu hawliau hyn am o leiaf 26 wythnos ar y dyddiad rydym yn prosesu eich cais

a

- **bod angen help arnoch**
 - i brynu dodrefn neu offer i'r cartref
 - i brynu dillad ac esgidiau
 - i dalu rhent ymlaen llaw a/neu dreuliau symud i sicrhau llety newydd
 - i dalu am welliannau i'r cartref, gwaith cynnal a chadw neu ddiogelwch
 - gyda chostau teithio, mamolaeth ac angladd
 - i dalu am bethau i'ch helpu i chwilio am waith neu i ddechrau gweithio
 - i ad-dalu Hur Bwrcas neu ddyledion eraill a drefnwyd

Ni allwn helpu gydag unrhyw fathau eraill o eitemau neu wasanaethau

Mae'n rhaid ad-dalu Benthyciadau Trefnu ond maent yn ddi-log.



Adran Gwaith
a Phensiynau

SF500W 10/19

Trowch drosodd am ragor o wybodaeth ▶

Nodiadau

Gallwch gael un o dair cyfradd o Fenthyciad Trefnu. Mae'r cyfanswm yn dibynnu ar p'un a ydych yn sengl, cwpl heb blant neu bobl ifanc sy'n gymwys, neu deulu un neu ddau riant sydd â phlant neu bobl ifanc sy'n gymwys. Ar gyfer person sengl y gyfradd uchaf yw £348, ar gyfer cwpl heb blant neu bobl ifanc sy'n gymwys y gyfradd uchaf yw £464, ac am deulu un neu ddau riant â phlant y gyfradd uchaf yw £812. Ni allwn dalu mwy na'r symiau hyn i chi.

Mae swm y Benthyciad Trefnu y gallwch ei gael yn dibynnu hefyd ar p'un a oes gennych unrhyw Fenthyciadau Trefnu neu Fenthyciadau Argyfwng eraill nad ydych wedi eu talu'n ôl i'r Gronfa Gymdeithasol. Ni allwn wneud taliad am fenthyciad os ydych eisoes mewn dyled o £1,500 neu fwy i'r Gronfa Gymdeithasol ar gyfer unrhyw gyfuniad o Fenthyciadau Argyfwng neu Fenthyciadau Trefnu blaenorol.

Cynilion

- Os ydych chi a'ch partner o dan 63 oed, gallai cynilion o fwy na £1,000 effeithio ar y swm o arian y gallwch ei gael.
- Os ydych chi neu'ch partner yn 63 oed neu'n hŷn, gallai cynilion o fwy na £2,000 effeithio ar y swm o arian y gallwch ei gael.

Ni allwn wneud taliad am fenthyciad os oes £1,500 neu fwy eisoes yn ddyledus gennych i'r Gronfa Gymdeithasol.

Ni allwn dalu Benthyciad Trefnu am dreuliau o lai na £100.

Sut rydym yn penderfynu beth y gallwn ei dalu i chi

Bydd swyddog penderfyniadau yn edrych ar yr amgylchiadau perthnasol ac yn penderfynu ar uchafswm y Benthyciad Trefnu y gallwch ei gael, os nad oes gennych ddyled eisoes gyda'r Gronfa Gymdeithasol. Bydd p'un a allwch gael benthyciad ai peidio hyd at y swm hwnnw yn dibynnu ar p'un a oes gennych ddyled benthyciad trefnu eisoes.

Sut i ad-dalu'r benthyciad

- Byddwn yn edrych ar faint allwch chi ei fforddio cyn penderfynu ar y trefniadau ar gyfer ad-dalu.
- Os gallwn dalu Benthyciad Trefnu i chi, gallem gynnig tri pheth i chi. Chi fydd yn penderfynu p'un o'r cynigion hyn y gallwch fforddio eu had-dalu.

Efallai na fyddwn yn gallu gostwng y gyfradd ad-dalu os byddwch yn teimlo na allwch fforddio'r gyfradd yr ydych wedi cytuno'n wreiddiol â hi.

- Os gallwn dalu Benthyciad Trefnu i chi, byddwn yn gofyn i chi gytuno ei ad-dalu ac hefyd y ffordd byddwch yn ei had-dalu cyn y gallwn wneud y taliad.
- Byddwn yn cymryd yr arian yn ôl mewn ad-daliadau wythnosol o'ch budd-dal. Os nad ydych chi neu'ch partner yn cael unrhyw fudd-dal, byddwn yn trefnu i'r benthyciad gael ei ad-dalu mewn ffordd arall.
- Os ydych yn cael problemau nes ymlaen yn gwneud yr ad-daliadau fel y cytunwyd yn wreiddiol, efallai y gallwn eich helpu, er enghraifft gostwng eich taliadau wrth ymestyn cyfnod yr ad-daliad. Gall eich swyddfa Canolfan Byd Gwaith roi cyngor i chi.

Help a chyngor

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth

- cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith, ffoniwch **0800 169 0240**. Hefyd gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth yn **www.gov.uk/cymraeg** neu
- cysylltwch â chanolfan gynghori fel Cyngor Ar Bopeth.

Mae partner yn golygu

- person rydych yn byw gyda hwy sy'n wŵr, gwraig neu bartner sifil i chi, neu
- person rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn gwpl priod

Mae plentyn yn golygu person o dan 16 oed sy'n byw gyda chi rydych yn cael Budd-dal Plant ar ei gyfer.

Mae person ifanc sy'n gymwys yn golygu person 16, 17, 18 neu 19 oed sy'n byw gyda chi, rydych yn cael Budd-dal Plant ar ei gyfer.

Canllaw cyffredinol yn unig yw'r nodiadau hyn ac ni ddylid eu trin fel datganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith.

Datgysylltwch y dudalen hon a chadwch hi er gwybodaeth ►

Rhan 1: Amdanoch chi a'ch partner

- Cyn i chi gwblhau'r ffurflen hon, darllenwch y daflen nodiadau sy'n dweud wrthy'ch am bob math o help y gallwch ei gael o'r Gronfa Gymdeithasol.
- Defnyddiwch y ffurflen hon i wneud cais am Fenthyciad Trefnu. Llofnodwch a dyddiwch unrhyw addasiadau a wnewch.
- Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn, y person sy'n gwneud cais am y budd-dal neu'r hawl hwnnw ac sy'n ei gael ddylai lenwi'r ffurflen hon.
- Dywedwch wrthym amdanoch chi eich hun a'ch partner, os oes gennych un. Mae partner yn golygu
 - person rydych yn briod ag ef/hi neu rywun rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn briod â nhw, neu
 - partner sifil neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn bartneriaid sifil
- Llenwch y ffurflen yn llawn trwy ateb **pob** cwestiwn ac unrhyw gais am wybodaeth. **Efallai y bydd oedi wrth ddelio â'ch cais os na chawn yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom.**
- Llenwch y ffurflen hon mewn **INC DU** a defnyddiwch **BRIFLYTHRENAU**.

| | Chi | Eich partner |
|--|--|--|
| Rhif Yswiriant Gwladol (YG) | Llythrennau Rhifau Llythyren <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> | Llythrennau Rhifau Llythyren <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> <input type="text"/> |
| | Gallwch ddod o hyd i'r rhif ar eich cerdyn rhif Yswiriant Gwladol (YG), llythyrau ynglŷn â'ch budd-dal neu slipiau cyflog. | |
| Cyfenw neu enw teuluol | <input type="text"/> | <input type="text"/> |
| Cyfenwau eraill rydych wedi cael eich adnabod wrthynt | <input type="text"/> | <input type="text"/> |
| Pob enw arall, yn llawn | <input type="text"/> | <input type="text"/> |
| Dyddiad geni | <input type="text"/> / <input type="text"/> / <input type="text"/> | <input type="text"/> / <input type="text"/> / <input type="text"/> |
| Rhif ffôn yn ystod y dydd Efallai y bydd angen i ni gysylltu â chi dros y ffôn i ofyn am wybodaeth bellach, neu pan fydd penderfyniad ar eich cais yn cael ei wneud. Noder, gall y rhif ymddangos fel 0800 , yn anhysbys neu wedi'i atal. | <input type="text"/> | <input type="text"/> |

Rhan 1: Amdanoch chi a'ch partner parhad

Rhif ffôn symudol, os oes un gennyh

Eich cyfeiriad e-bost, os oes un gennyh

Y cyfeiriad lle rydych yn byw nawr

Dywedwch wrthym beth yw eich cyfeiriad presennol, a dywedwch wrthym gyfeiriad presennol eich partner, os yw'n wahanol.

Ydych chi neu'ch partner yn cymryd rhan mewn

anghydfod diwydiannol? Mae anghydfod masnach yn golygu streic, cerdded allan, cloi allan neu unrhyw anghydfod arall am waith.

Chi

Cod post

Na

Ydw

Eich partner

Cod post

Na

Ydy

Rhan 2: Ynglŷn â'ch plant neu bobl ifanc sy'n gymwys

- Mae plentyn yn golygu person o dan 16 oed rydych yn cael Budd-dal Plant ar ei gyfer.
- Mae person ifanc sy'n gymwys yn golygu person 16, 17, 18 neu 19 oed rydych yn cael Budd-dal Plant ar ei gyfer.

Dywedwch wrthym am nifer y plant neu bobl ifanc gymwys yn eich cartref.

Ydych chi'n cael Credyd Treth Plant ar gyfer eich plant neu bobl ifanc sy'n gymwys?

Na

Ydw Faint ydych yn ei dderbyn pob wythnos?

£

Ydych chi'n cael Budd-dal Plant ar gyfer eich plant neu bobl ifanc sy'n gymwys?

Na

Ydw Faint ydych yn ei dderbyn pob wythnos?

£

Rhan 3: Ynglŷn â'r hyn sydd ei angen arnoch

Dim ond ar gyfer y mathau o eitemau neu wasanaethau a restrir yn y rhan hon y gellir rhoi Benthyciadau Trefnu.

Nodwch gyfanswm yr arian y mae arnoch ei angen yn y blwch **Cyfanswm y ceisir amdano** ar gyfer eich anghenion.

Cyfeiriwch at y daflenni nodiadau am y cyfraddau uchafswm o Fenthyciadau Cyllidebu yn dibynnu ar eich amgylchiadau.

Cyfanswm y ceisir amdano £

Pa eitemau ydych yn gwneud cais amdanynt?

Ticiwch y blwch (neu flychau) sy'n berthnasol i chi.

Dodrefn ac offer i'r cartref

Dillad ac esgidiau

Rhent ymlaen llaw neu dreuliau symud i lety newydd

Gwelliannau, gwaith cynnal a chadw a diogelwch i'r cartref

Treuliau teithio o fewn y DU

Treuliau sy'n gysylltiedig â chwilio am waith neu ailddechrau gweithio

Treuliau mamolaeth

Treuliau angladd

Ad-dalu Hur Bwrcas a dyledion eraill – am unrhyw eitemau neu dreuliau sy'n gysylltiedig â'r categorïau uchod

Rhan 4: Ynglŷn a budd-daliadau a hawliau

Ydych chi neu'ch partner yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, Credyd Pensiwn neu daliad ar gyfrif am un o'r budd-daliadau neu hawliau hyn ar hyn o bryd?

Na Ewch i **Rhan 8**.

Ydym Dywedwch wrthym pa fudd-daliadau neu hawliau rydych chi'n eu cael.

Cymhorthdal Incwm

Lwfans Ceisio Gwaith (yn seiliedig ar incwm)

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (yn seiliedig ar incwm)

Credyd Pensiwn

A yw partner neu cyn-bartner wedi cael:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
- Credyd Pensiwn neu daliad ar gyfrif am un o'r budd-daliadau neu hawliau hyn ar eich cyfer yn ystod y 26 wythnos diwethaf?

Na

Ydy Dywedwch wrthym am y person hyn:

Eu henw

Eu dyddiad geni

Eu rhif Yswiriant Gwladol (YG)

Dyddiad gwahanu

Eu cyfeiriad

 Cod post

Ydych chi wedi gwneud y cais hwn am eich bod wedi gwahanu oddi wrth rywun?

Na

Ydw Dywedwch wrthym am y person rydych chi wedi gwahanu oddi wrthynt:

Eu henw

Eu dyddiad geni

Rhan 5: Ynglŷn ag arian mae'n rhaid i chi ei dalu

Dywedwch wrthym am unrhyw arian y mae'n rhaid i chi neu'ch partner ei dalu'n rheolaidd, ond peidiwch â chynnwys costau byw arferol fel taliadau nwy a thrydan neu filiau bwyd.

Dylech gynnwys pethau fel arian catalog, hur bwrcas, taliadau benthyciad a dirwyon.

Atebwch yr holl gwestiynau ar gyfer pob taliad rheolaidd. Os na fyddwch yn rhoi'r holl wybodaeth i ni, ni fyddwn yn gallu gwneud penderfyniad ar y cais hwn.

Dim ond i gyfrifo eich ad-daliadau fydd yr ymatebion canlynol yn cael eu defnyddio os yw'r cynnig o fenthyciad yn cael ei wneud.

Taliad 1

I bwy rydych yn talu'r arian?

Faint rydych yn ei dalu a pha mor aml?

£ bob wythnos bob pythefnos bob mis

Faint sy'n ddyledus?

£

Taliad 2

I bwy rydych yn talu'r arian?

Faint rydych yn ei dalu a pha mor aml?

£ bob wythnos bob pythefnos bob mis

Faint sy'n ddyledus?

£

Taliad 3

I bwy rydych yn talu'r arian?

Faint rydych yn ei dalu a pha mor aml?

£ bob wythnos bob pythefnos bob mis

Faint sy'n ddyledus?

£

Taliad 4

I bwy rydych yn talu'r arian?

Faint rydych yn ei dalu a pha mor aml?

£ bob wythnos bob pythefnos bob mis

Faint sy'n ddyledus?

£

Rhan 6: Ynglŷn â chynilion



Os na fyddwch yn cwblhau'r rhan hon o'r ffurflen gallai eich cais gael ei oedi.

Oes gennych chi neu'ch partner unrhyw gynilion?

Os ydych chi a'ch partner o dan 63 oed, efallai y gallwn anwybyddu'r £1,000 cyntaf o'ch cynilion. Os ydych chi neu'ch partner dros 63 oed, efallai y gallwn anwybyddu'r £2,000 cyntaf o'ch cynilion.

Mae cynilion yn golygu unrhyw gyfalaf sydd gennych chi a'ch partner, yn cynnwys:

- unrhyw arian sydd gennych gartref, yn y banc, gymdeithas adeiladu neu mewn cyfrif undeb credyd
- bondiau premiwm
- buddsoddiadau, fel cyfranddaliadau neu ymddiriedolaethau uned
- gwerth unrhyw eiddo rydych chi neu'ch partner yn berchen arno nad ydych yn byw ynddo. Er enghraifft, tŷ rydych yn ei osod allan, tŷ gwyliau neu rhywle mae aelod arall o'ch teulu yn byw ynddo.

Na

Oes **Faint o gynilion sydd gennych?**

£

Rhan 7: Sut rydym yn eich talu

Os ydych yn defnyddio'r cyfrif mae eich budd-daliadau wedi eu talu iddo fel arfer, ewch yn uniongyrchol i ran 8.

Fel arfer byddwn yn talu'ch arian yn uniongyrchol i'r un cyfrif ag y byddwn yn talu eich budd-dal iddo.

Bydd nifer o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn eich caniatáu i gasglu eich arian yn y Swyddfa Bost.

Byddwn yn dweud wrthyfch pryd y caiff eich taliad o'r Gronfa Gymdeithasol ei wneud a faint ydyw.

Cael gwybod faint rydym wedi'i dalu i'r cyfrif

Gallwch wirio eich taliadau ar gyfriflenni cyfrif. Efallai bydd y cyfriflenni yn dangos eich rhif Yswiriant Gwladol (YG) wrth ymyl unrhyw daliadau rydym wedi eu gwneud. Os credwch fod y taliad yn anghywir, cysylltwch â'r swyddfa sy'n eich talu ar unwaith.

Os byddwn yn talu gormod o arian i chi

Mae gennym yr hawl i adennill unrhyw arian a dalwyd nad oes gennych hawl i'w gael. Gallai hyn fod oherwydd y ffordd y mae'r system ar gyfer taliadau yn gweithredu.

Er enghraifft, efallai y byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni, sy'n golygu bod hawl gennych i gael llai o arian. Weithiau ni allwn newid y swm rydym wedi'i dalu i chi eisoes. Golyga hyn y byddwn wedi talu arian i chi nad oes gennych hawl i'w gael.

Byddwn yn cysylltu â chi cyn y byddwn yn adennill unrhyw arian.

Beth i'w wneud nawr

- Ewch i **Rhan 8**, oni bai eich bod am i ni dalu eich Taliad y Gronfa Gymdeithasol i gyfrif sy'n **wahanol** i'r un rydym yn talu'ch budd-dal.
- Os ydych am i ni dalu eich Taliad y Gronfa Gymdeithasol i gyfrif gwahanol, dywedwch wrthyfch am hwn ar y dudalen nesaf. Drwy roi manylion y cyfrif hwn i ni rydych yn:
 - cytuno y byddwn yn eich talu i'r cyfrif hwn, ac
 - deall yr hyn rydym wedi ei ddweud wrthyfch uchod yn yr adran **Os byddwn yn talu gormod o arian i chi**
- Os ydych yn bwriadu agor cyfrif, rhowch fanylion eich cyfrif i ni cyn gynted â'u bod gennych.
- Os nad oes gennych gyfrif ac nid ydych yn bwriadu agor un, ticiwch y blwch a byddwn yn cysylltu â chi.



Llenwch weddill y ffurflen hon. Nid oes rhaid i chi aros nes eich bod wedi agor cyfrif neu gysylltu â ni.

Rhan 7: Sut rydym yn eich talu parhad

Os ydych yn dymuno defnyddio cyfrif gwahanol, dywedwch wrthym am y cyfrif yr hoffech ei ddefnyddio ar gyfer y taliad hwn.

- Gallwch ddefnyddio cyfrif yn eich enw chi, neu gyfrif ar y cyd.
- Gallwch ddefnyddio cyfrif rhywun arall os:
 - os yw termau ac amodau eu cyfrif yn caniatáu hyn
 - maent yn eich caniatáu i ddefnyddio eu cyfrif, a
 - rydych yn sicr y byddant yn defnyddio'r arian yn y ffordd rydych yn ei ddweud wrthynt.
- Gallwch ddefnyddio cyfrif undeb credyd. Mae'n rhaid i chi ddweud wrthym fanylion y cyfrif undeb credyd. Gall eich undeb credyd eich helpu gyda hyn.

- Os ydych yn benodai neu gynrychiolydd cyfreithiol yn gweithredu ar ran yr hawliwr, dylai'r cyfrif fod yn eich enw chi yn unig.

Rhowch fanylion eich cyfrif isod.

Mae'n bwysig eich bod yn llenwi pob blwch yn gywir gan gynnwys rhif rôl neu gyfeirnod y gymdeithas adeiladu os oes gennych un. Os byddwch yn rhoi'r manylion cyfrif anghywir i ni gallai eich taliad gael ei oedi neu gallwch golli arian.

Gallwch ddod o hyd i fanylion y cyfrif ar eich llyfr siec neu'ch cyfriflenni banc. Os nad ydych yn siwr am y manylion, gofynnwch i'r banc neu'r gymdeithas adeiladu.

Enw deiliad y cyfrif

Ysgrifennwch enw deiliad y cyfrif yn union fel y mae i'w weld ar y llyfr siec neu gyfriflen.

Enw llawn y banc neu'r gymdeithas adeiladu.

Cod didoli

Rhowch bob un o'r 6 rhif, er enghraifft: 12-34-56.

Rhif y cyfrif

Mae'r mwyafrif o rifau cyfrif yn 8 rhif o hyd. Os oes gan eich cyfrif lai na 10 rhif, llenwch y rhifau i mewn o'r chwith.

Rhif rôl neu gyfeirnod cymdeithas adeiladu

Os ydych yn defnyddio cyfrif cymdeithas adeiladu efallai y bydd yn rhaid i chi ddweud wrthym y rhif rôl neu gyfeirnod. Gall gynnwys llythrennau a rhifau a gall fod hyd at 18 llythyren neu rif o hyd. Os ydych yn ansicr p'un a oes gan y cyfrif rif rôl neu gyfeirnod, gofynnwch i'r gymdeithas adeiladu.

Efallai eich bod yn cael budd-daliadau a hawliau eraill na chânt eu talu i gyfrif. Os ydych am i ni eu talu i'r cyfrif uchod, ticiwch y blwch hwn.

Rhan 8: I bobl sy'n llenwi'r ffurflen hon a'i llofnodi ar ran rhywun arall

Ydych chi wedi llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall?

Dywedwch wrthym pam rydych yn llenwi ac yn llofnodi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall.

Eich enw llawn

Eich dyddiad geni

Eich cyfeiriad

Eich rhif ffôn

Beth yw'r rhif hwn?
Ticiwch

Na Ewch i **Rhan 9**.

Ydw Dywedwch wrthym amdanoch eich hun.

Rwyf yn anfon llythyr hwn y mae'r hawlydd wedi'i llofnodi gyda'r ffurflen hon. Mae'r llythyr yn dweud wrthyf eu bod yn cytuno i mi wneud y cais ar eu rhan. Nawr llofnodwch y ffurflen hon yn **Rhan 9**.

Fi yw eu penodai.

Mae gennyf bŵer atwrnai.

Cod post

| | |
|-----|------|
| Cod | Rhif |
|-----|------|

Cartref Gwaith Symudol Ffacs

Nawr llofnodwch y ffurflen hon yn Rhan 9.

Rhan 9: Datganiad

Drwy gyflwyno'r cais hwn rydych yn cytuno bod y wybodaeth rydych wedi'i rhoi yn gyflawn ac yn gywir.

Os ydych yn rhoi gwybodaeth anghywir neu anghyflawn, gallwch:

- cael eich erlyn
- bod angen talu cosb ariannol
- cael eich budd-dal wedi'i ostwng neu ei stopio
- cael eich talu gormod o fudd-dal a gorfod talu'r arian yn ôl

Os byddwn yn talu llai i chi nag y dylem, efallai byddwn yn talu'r arian sydd arnom i chi.

Rwyf yn deall y gallaf dim ond ymgeisio am yr eitemau a/neu'r treuliau a restrir yn Rhan 3, tudalen 3 o'r ffurflen gais hon.

Dyma fy nghais am Fenthyciad Trefnu.

Y person a wnaeth y cais am Gymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn ac sy'n cael y budd-dal neu'r hawl hwnnw ddylai lofnodi'r ffurflen hon a'i dyddio.

Rwyf wedi darllen y manylion a roddwyd ar y ffurflen hon yn ôl i'r cwsmer yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd ganddynt.

Mae'r cwsmer wedi cytuno eu bod yn gywir.

Llofnod y swyddog cyfweld

Dyddiad

Llofnod y cwsmer

Dyddiad

Llofnod derbynnnydd neu lofnod penodai

Dyddiad

Rhan 10: Beth i'w wneud nawr

- Edrychwch drwy'r ffurflen hon a gwnewch yn siwr eich bod wedi ateb pob cwestiwn ac wedi rhoi'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani. **Efallai y bydd oedi wrth ddelio â'ch cais os na chawn yr holl wybodaeth y mae ei hangen arnom.**
- Os ydych wedi gwneud unrhyw ddiwygiadau, gwnewch yn siwr eich bod yn eu llofnodi a'u dyddio.
- Gwnewch yn siwr eich bod wedi llofnodi'r ffurflen yn **Rhan 9**.

Rhan 11: Ble i anfon y ffurflen gais

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen gais, anfonwch y ffurflen yn yr amlen rydym wedi'i hanfon atoch, neu ewch â'r ffurflen i'ch swyddfa canolfan gwaith agosaf.

Rhan 12: Beth sy'n digwydd nesaf

Byddwn yn edrych ar eich cais yn ofalus. Mae'n rhaid i'r swyddog penderfyniadau edrych ar yr holl amgylchiadau cyn penderfynu os gellir dyfarnu Benthyciad Trefnu. Dim ond swm cyfyngedig o arian sydd ar gael gan y Gronfa Gymdeithasol.

Os byddwn yn penderfynu y **gallwn** dalu benthyciad i chi ac rydych yn cytuno termau i ad-dalu'r benthyciad, byddwn yn gwneud taliad i'r un cyfrif ac y mae eich budd-dal yn cael ei dalu iddo, oni bai eich bod wedi rhoi manylion cyfrif gwahanol i ni yn **Rhan 7**.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi os **na allwn** dalu benthyciad i chi.

Rhan 13: Sut mae DWP yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch, gallwn eu defnyddio ar gyfer unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- budd-daliadau â lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- gwaith a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn troseddau credydau treth
- polisi pensiynau preifat a
- cynllunio ymddeol

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan bartion eraill am unrhyw un o'n dibenion gan fod y gyfraith yn caniatáu i ni wirio'r wybodaeth rydych yn ei rhoi a gwella ein gwasanaethau. Efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau eraill fel y mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft i ddiogelu'n erbyn trosedd.

I gael gwybod rhagor am ein dibenion, sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at y dibenion hynny a'ch hawliau gwybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth, chwiliwch am y Siarter Gwybodaeth Bersonol ar **www.gov.uk/cymraeg**

Rhan 14: Ein safonau gwasanaeth

Yn yr Adran Gwaith a Phensiynau ein nod yw darparu safon uchel o wasanaeth i gwsmeriaid bob amser. Gellir dod o hyd i fanylion safon y gwasanaeth y gallwch ei ddisgwyl gennym ar ein gwefan yn **www.gov.uk/cymraeg**

Gallwch gael mynediad at ein gwefan mewn llawer o lyfrgelloedd.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'ch ganolfan gwaith leol.
